**Mabon ap Gwynfor**
Aelod o'r Senedd dros
Ddwyfor Meirionnydd
—
Member of the Senedd for
Dwyfor Meirionnydd

**Senedd Cymru**
Bae Caerdydd, Caerdydd, CF99 1SN
mabon.ap.gwynfor@senedd.cymru
https://senedd.cymru/pobl/mabon-ap-gwynfor-as/
—
**Welsh Parliament**
Cardiff Bay, Cardiff, CF99 1SN
mabon.ap.gwynfor@senedd.wales
https://senedd.wales/people/mabon-ap-gwynfor-ms/

0300 200 6565
@mabon.ap
@mabonapgwynfor
/mabonplaidcymru

3a Bank Place
Porthmadog
LL49 9AA
0300 200 7175

16/02/2024

Annwyl Paul,

IDDs

Ysgrifennaf atat fel Cadeirydd Pwyllgor ETRA gyda chais i'r Pwyllgor gynnal ymchwiliad i fewn i'r IDDs yng Nghymru.

Yng ngwyneb yr argyfwng ariannol a'r argyfwng hinsawdd yr ydym yn byw drwyddi ar hyn o bryd mae'n dod yn gynyddol amlwg nad ydy'r drefn IDD presennol yn medru parhau. Mae'n amhosib gwneud y gwaith angenrheidiol i fewn i gynnal a chadw y tiroedd isel yma rhag cael eu hawlio gan y mor yng ngwyneb y anghenion eraill sydd yn wynebu CNC. Mae yna beryg go iawn i ni golli peth o diroedd mwyaf ffrwythlon a chynhyrchiol Cymru dros y degawdau nesaf os nad oes yna newid yn sut mae CNC yn gweithredu o fewn y drefn IDD.

Gan mai penderfyniad gwleidyddol ydy cyfeiriad gwaith CNC, yna dim ond penderfyniad gwleidyddol all ganfod datrysiad i'r heriau sydd yn wynebu ardaloedd IDD.

Gwn fod eich blaen raglen waith yn llawn ac felly ei fod am fod yn anodd iawn cynnal ymchwiliad dyfn i'r peth. Felly efallai yr hoffai'r Pwyllgor gynnal ymchwiliad byr er mwyn cael gwell dealltwriaeth o'r materion cyn penderfynu mynd ymlaen ymhellach.

Diolch am eich amser a gobeithio y gwnaiff y Pwyllgor ystyried fy nghais yn ffafriol.

Yr eiddoch yn gywir,

Mabon ap Gwynfor AS